TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Gwaith Gwella Gorsaf Caer

## *Cwestiynau Cyffredin*

1. **Pa waith gwella fydd TrC yn ei wneud yng ngorsaf Caer a pham?**

Fel rhan o weledigaeth TrC ar gyfer Gwella Gorsafoedd byddwn yn canolbwyntio ar wneud gwelliannau sylweddol i gyfleusterau cwsmeriaid yn yr orsaf, gan gynnwys ardal y gatiau mynediad/gadael, pwyntiau cymorth newydd, cyfleusterau gwerthu tocynnau, sgriniau gwybodaeth i gwsmeriaid, ystafelloedd aros a man cadw beiciau, seddi, cyfleusterau gwastraff, teledu cylch cyfyng, arwyddion a brandio, gwelliannau manwerthu a gatiau.

Nod y buddsoddiad sylweddol hwn yw gwella profiad cwsmeriaid yn yr orsaf drwy wella ac uwchraddio'r cyfleusterau a chyflwyno brand a gweledigaeth cyflawn TrC yn yr orsaf.

2. **Pryd mae'r gwaith yng Ngorsaf Caer yn digwydd a pha mor hir y bydd yn ei gymryd?**

Bydd y gwaith yn dechrau yng Ngorsaf Caer yn gynnar ym mis Mehefin a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn dechrau 2024. Bydd TrC yn gweithio'n agos gyda'n prif gontractwr MPH Construction, y diwydiant a phartneriaid lleol i leihau unrhyw darfu neu sŵn yn ystod y gwaith hwn a lleihau ei effaith ar ein cwsmeriaid a'r gymuned leol.

3. **Fel cwsmer yng ngorsaf Caer sut bydd y gwaith gwella hwn yn effeithio arna i?**

Anogir cwsmeriaid i roi digon o amser i'w hunain wrth deithio trwy orsaf Caer i ganiatáu ar gyfer unrhyw oedi posibl yn ystod y cyfnod hwn. Bydd arwyddion a hysbysfyrddau'n cael eu gosod yn yr orsaf trwy gydol oes y prosiect yn rhoi gwybod am y gwaith gwella sylweddol hwn, a bydd cyfathrebiadau'n cael eu darparu yn yr orsaf, ar y gwasanaethau ac ar-lein, i roi gwybod am unrhyw newidiadau dros dro yn yr orsaf fydd yn cael eu gwneud er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith hwn.

Rydym yn rhagweld rhywfaint o darfu wrth ddarparu'r gwaith gwella mwyaf sylweddol gan gynnwys y gwaith uwchraddio i ardal y gatiau. Bydd hyn yn golygu creu llwybr amgen dros-dro i gwsmeriaid gael mynediad i'r platfformau, yn ogystal â staff yn gwirio tocynnau. Mae'r tîm yn gweithio'n galed i sicrhau y bydd unrhyw darfu yn cael ei gadw i'r lleiafswm a bydd staff yr orsaf hefyd wrth law i gynorthwyo teithwyr trwy gydol y gwaith.

4. **A fydd y gwaith hwn yn effeithio ar feysydd parcio'r orsaf?**

Bydd compownd safle gwaith hanfodol ar agor yn ystod y gwaith gwella hwn o fis Mehefin nes bydd y gwaith wedi'i gwblhau yn gynnar yn 2024. Bydd compownd y safle gwaith yn cael ei osod ym maes parcio Gorllewin Caer. Bydd hyn yn golygu y bydd ychydig llai o leoedd parcio ar gael (19 i gyd) o ddydd Sadwrn 27 Mai. Ni effeithir ar faes parcio Gorsaf Dwyrain Caer.

5. **Beth yw'r gwaith mwyaf arwyddocaol fydd yn cael ei wneud yng nghyntedd yr orsaf?**

Mae gwaith gwella yn cynnwys ail-bwrpasu'r swyddfa docynnau i greu uned fanwerthu newydd, fodern, uned logi newydd, desg gwasanaeth cwsmeriaid newydd gyda chyfleusterau gwerthu tocynnau, peiriannau gwerthu tocynnau ychwanegol a rhagor o gatiau mynediad safonol a llydan. Bydd y toiledau'n cael eu hadnewyddu yn ogystal a chreu toiled lle newid newydd. Hefyd, bydd seddi, uned ail-lenwi dŵr a chyfleusterau gwastraff newydd yn cael eu gosod. Bydd ystafell dawel newydd hefyd yn cael ei chreu – man lle gall cwsmeriaid aros am eu trên mewn man diogel a thawel.

6. **A yw Sgriniau Gwybodaeth Cwsmeriaid newydd wedi'u cynnwys yn y prosiect hwn?**

Ydynt. Bydd Sgriniau Gwybodaeth i Gwsmeriaid Newydd yn cael eu gosod ledled gorsaf Caer mewn lleoliadau presennol ac ychwanegol. Bydd hyn yn cynyddu gwybodaeth y gwasanaeth trên ar y platfformau ac o fewn ystafelloedd aros yr orsaf. Bydd sgriniau newydd yn cael eu gosod ar gyfer teithiau ymlaen, gan gynnwys gwybodaeth am fysiau, a bydd sgrin ryngweithiol yn cael ei gosod yn y cyntedd.

7. **A yw adborth cwsmeriaid wedi'i gynnwys yn y gwaith gwella hwn?**

Ydi. Mae llawer iawn o adborth gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid wedi'i ystyried, yn ogystal â safbwyntiau gwerthfawr ein cydweithwyr sy'n gweithio yn yr orsaf. Rydym yn hyderus y bydd cwsmeriaid yn mwynhau profiad cwsmer llawer gwell unwaith y bydd yr holl waith gwella wedi'i gwblhau.

8. **A yw TrC yn gwneud gwaith gwella mewn gorsafoedd eraill ar draws Cymru a'r Gororau?**

Fel rhan o'r cam hwn o Weledigaeth Gwella Gorsaf TrC byddwn hefyd yn gwneud gwaith gwella gorsafoedd yn y Fflint a Runcorn East a bydd y gwaith hwn yn dechrau yn yr haf.

**Sut alla i ddod o hyd i wybodaeth am y gwaith gwella hwn?**

Gallwch gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect hwn drwy fynd i'n gwefan: [trc.cymru/gwelliannau-caer](trc.cymru/gwelliannau-caer)

Byddwn hefyd yn cynnal cyfres o sesiynau Cwrdd â'r Rheolwr yng ngorsaf Caer (gyferbyn â'r gatiau yn y cyntedd).

Dyma ddyddiadau y cyfarfodydd hyn:

**Dydd Iau 1 Mehefin - 12 -7pm**

**Dydd Gwener 16 Mehefin - 9am -3pm**

**Dydd Mercher 21 Mehefin - 12 -7pm.**

Dewch i gwrdd â thîm y prosiect i wybod mwy am y gwelliannau i orsaf Caer.